

Cofnodion Cyfarfod 2ail Fawrth 2021

Presennol :- Y Cadeirydd **Gareth Griffiths** a'r Cyngorwyr, Elfed Wyn Williams, Phyllis Ellis, Jane Pierce, R. Hefin Williams. Rhian Evans-Hill, Richard Llwyd Jones. Lowri Hughes a Cheri Jones
Croesawyd y Cyngorydd Elwyn Jones

Croeso a Gweddi

Rhoddyd gair o groeso i bawb gan Y Cadeirydd.

Tristwch Mawr I ni fel Cyngor Cymuned yr wythnos hon oedd derbyn newyddion a cholled Aled Green. Talodd Richard LL Jones air o deyrnged iddo. Un wedi ei fagu i ymladd yn galed yn yr ystyr i fagu teulu, a gwneud y gorau dros bobl yr ardal i wella ei gymuned. Yng ngeiriau Richard:

[Er cof am y Cyng. Aled Green, Penisarwaun](#)

[Geiriau sawl cyfnod gerwin - a gawsom
yn gyson, gysefin
mewn araith, min y werin -
aelod y graith, Aled Green.](#)

Rydym yn anfon ein Cydymdeimlad dwysaf I Judith, Meurig, Dilwyn a'r teulu oll yn eu colled. A diolch am wasanaeth Aled yn Aelod Ffyddlon o'r Cyngor am flynyddoedd maith.

Ymddiheuriadau.

Idris Thomas, Emma Chappell

Datgan buddiant

Dim

Cofnodion Cyfarfod 2ail Chwefror 2021

Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir

Phyllis Ellis (1)

Rhian Evans-Hill (2)

Materion o'r cofnodion

Priffyrdd Derbyniwyd ymateb gan yr adran ynglŷn â dŵr sy'n sefyll yn y pantiau ar y lôn o Roeslon Tŷ Mawr I Fethel. Bydd arolygiad yn cael ei gwneud ar y ffordd yn dilyn glaw trwm, ac yna bydd gwaith dilynol yn cael i wneud i waredu'r peryg ar y ffordd.

Gohebiaethau a Materion Eraill

Llwybrau - Derbyniwyd cyfraniad mewn ad-daliad gan Gyngor Gwynedd yn dilyn

torri llwybrau dros yr haf. Dal yn disgwyl 1 anfoneb am doriadau Rhiwlas. REH I gysylltu.

Mynydd Gwefru - Trist iawn oedd derbyn llythyr yn adrodd na fydd Mynydd Gwefru yn ail agor, ac yna bydd rhaid ei ddymchwel o bosib, oherwydd diogelwch. Wrth gwrs, yn wreiddiol, canolfan ar gyfer y pentrefi lleol oedd yr adeilad i fod. Mae cyfarfodydd wedi eu trefnu ynglŷn â bwriad am ddyfodol y safle, ac mae'n rhaid cofio hyn pan fydd y trafodaethau yma yn cael eu cynnal.

Incredible Edible Rhiwlas - Diolch I Gynghorydd Elwyn Jones am anfon bwriad y grŵp yma ymlaen. Yn anffodus, nid ydynt wedi cysylltu â'r cyngor cymuned o gwbl. Eu bwriad yw plannu coed o gwmpas y parc chwarae. O edrych mae ganddynt sawl syniad i wella harddwch a phlannu coed cynhenid, ond roedd Y Cyngor Cymuned yn bryderus ynglŷn â'r ffaith pwy sydd yn mynd i gynnal a chadw hyn i gyd. Fodd bynnag, mae'r caniatâd i blannu coed cynhenid ar ochor Caeau Gleision wedi ei roi gan Gyngor Gwynedd. Cyfeiriwyd at fainc sydd wedi malu yn y cae chwarae, ond nid y Cyngor Cymuned sydd yn berchen honno.

Stryd Tabernacl, Deiniolen - Yn dilyn cael llenwi tyllau yn y ffordd yma, mae sawl cwyn wedi cyrraedd ynglŷn â goryrru ar y ffordd yn dilyn y gwelliannau. Penderfynwyd gyrru llythyr i godi ymwybyddiaeth o hyn i'r adran briffyrdd yng Nghyngor Gwynedd.

Ceisiadau Cynllunio

C21/0085/18/LL - Maes Carafanau Tros y Waun

Ail ddylunio lleiniau carafanau teithiol presennol, creu 5 llain carafán deithiol ychwanegol a lleoli 8 carafán statig i ddisodli lleiniau carafanau teithiol Dim Gwrthwynebiad

C21/0149/18/DT - Cae Corniog Penisa'r-waun

Cais ar gyfer codi estyniad un llawr ochor ac estyniad deulawr yng nghefn yr eiddo Dim Gwrthwynebiad

C21/0112/18/LL - Glan y Gors, Deiniolen

Cais ar gyfer dymchwel adeilad allanol bresennol a chodi adeilad amaethyddol Dim Gwrthwynebiad

C21/0093/18/AC -Tir Gyferbyn a hen bost Clwt y Bont

Cais ar gyfer rhyddhau amodau (3) llechi, (4) Gorffeniad Allanol, (5) Cynllun Dulliau Adeiladu, (6) Archwiliad desg Asesu Risg Llygredd a (11) Cynllun Draenio o ganiatâd cynllunio cyfeirnod C16/0329/18/LL

C21/0121/18/DT - 3 Rhos Lan, Bethel

Dymchwel modurdy ac ystafell iwtiliti presennol a chodi estyniad deulawr Newydd yn eu lle. Dim Gwrthwynebiad I'r cais, ond yr un broblem yn codi eto, Parcio

C21/0162/18/DT - Arfor, 5 Rhos Bethel

Cais ar gyfer codi estyniad deulawr ochor ac estyniad un llawr to gwastad i gefn yr eiddo. Dim Gwrthwynebiad I'r cais, ond eto'r un broblem, colli lle parcio.

Barn Y Cyngor Cymuned ydi bod angen I Adran Cyngor Sir feddwl ymhellach ar y

broblem parcio sydd mewn sawl pentref, ac yn gwaethygu yn flynyddol. Mae angen polisi mwy pendant ar gyfer ceisiadau cynllunio a llefydd parcio.

Llwybrau

Llwybrau gyda diffygion wedi tynnu i sylw Cyngor Gwynedd yn disgwyl adroddiad yn ôl

Giât Mochyn, Carreg y Gath

Llwybr rhwng Tŷ Mawr a Hafod y Fraich, Deiniolen

Cae Goronwy

Llwybr 16 Rhiw Goch, Clwt Bont I Frynrefail

Tros y Waun I Dros y Waun Fach rhif 61, 61A, 63 a 64

Llwybr I Gegin Arthur

Llwybr Sinc - Tarmac yn waelod

Derbyniwyd llythyr ymhellach ynglŷn â'r broblem giât rhwng Tŷ Mawr a Hafod y Fraich. Nid yw'r Cyngor Cymuned byth heb gael gwybodaeth bellach o'r Cyngor Sir. Mae'r Clerc wedi ysgrifennu eto yn gofyn oes datblygiadau ynglŷn â'r llwybrau uchod.

Trafodwyd bwriad ar gyfer gwella'r llwybrau, a phenderfynwyd mai syniad da fyddai gwahodd dau o'r adran yng Nghyngor Gwynedd I gyfarfod Y Cyngor I drafod y ffordd ymlaen gyda hyn ar ddechrau'r Gwanwyn fel hyn.

Adborth Pellach Meysydd Chwarae

Mae'r Clerc yn dal i drafod gyda chlercod eraill i geisio cael gwell dealltwriaeth o'r problemau a'r costau ayyb pe bai'r cyngor yn penderfynu cymryd y parciau chwarae drosodd.

Hysbysfyrdau

Yn dilyn ymchwilio i mewn am amcan bris, mae cymaint o wahanol fathau o hysbysfyrdau i'w cael ar y farchnad, ac nid yn siŵr os oes cyfyngiadau gan y Cyngor Sir. Felly, penderfynwyd trafod y mater gyda'r Cyngor Sir cyn mynd dim bellach.

Ffurflen Flynyddol

Yn anffodus, ni allwn drafod hyn gan nad ydym wedi derbyn y ffurflen yn ôl gan ar yr archwilwyr. Mae'r clerch wedi cysylltu gyda'r archwilwyr, ac aent yn gobeithio ei chael yn y post yn ystod y mis nesaf.

O gwmpas y Bwrdd

Garej Beran - mwy o geir yno ar werth eto. Y clerch i edrych faint o geir sydd i fod ar werth yno.

Bethel, Biniau Baw Cŵn - Er bod sawl bin mwy neu lai bod un ar bob llwybr ym

Methel, maent yn tueddu i lenwi yn sydyn. Tybed pa mor aml mae'r biniau yn cael eu

gwagio yma. Clerc I gysylltu.

Dinorwig - Cwyn bod cŵn yn rhydd ar lwybrau a phlant a phobl ar yr un llwybr. Adegau, nid yw'r teuluoedd yn gallu parhau gan ei bod rhy berig, a'r perchnogion ddim am roi'r ci ar dennyn. Hefyd, mae cŵn yn cael eu gadael yn rhydd i grwydro' caeau, ar dir ffermwyr. Wrth gwrs, nid oes hawl ganddynt i fod yno. Mae hyn wedi cael ei amlygu ar y newyddion yn ddiweddar. Tybed ydi'n fater sydd yn digwydd, a sut mae ei datrys?

Ffordd gefn o Fethel I Felin - Mae adran ger y Culvert yno lle mae yno dipyn o ddŵr yn codi, sydd yn beryg ar y lôn. Tybed oes modd cysylltu â phrifyrdd i edrych i mewn i'r broblem

Cadarnhau Taliadau:

Dim